COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR RHEOLI DATBLYGU A GYNHALIWYD YN HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR, Y SWYDDFEYDD DINNESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB DDYDD IAU, 11 MEHEFIN 10:00

Presennol-

Y Cynghorydd RM Granville – y Cadeirydd

| | |
|---|---|
| I M Spiller | A Wathan |

Presennol yn Rhithwir:-

| | | | |
|---|---|---|---|
| RJ Collins | C L C Davies | S J Griffiths | D T Harrison |
| D M Hughes | M R John | J Llewellyn-Hopkins | J E Pratt |
| I Williams | R Williams | | |

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Rhodri Davies | Rheolwr Rheoli Datblygu ac Adeiladu |
| Gillian Dawson | Cyfreithiwr - Cynllunio |
| Craig Flower | Arweinydd Tîm Cymorth Cynllunio |
| Stephen Griffiths | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Janine Nightingale | Cyfarwyddwr Corfforaethol y Cymunedau |
| Jonathan Parsons | Rheolwr Grŵp – Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu |
| Michael Pitman | Swyddog Cymorth Technegol y Gwasanaethau Democrataidd |
| Robert Morgan | Prif Swyddog – Rheoli Datblygu Priffyrdd |
| Alex Carey | Prif Swyddog – Rheoli Datblygu Priffyrdd |
| Leigh Tuck | Arweinydd Tîm Rheoli Cludiant, Priffyrdd a Datblygu Strategol |

## 244. Ymddiheuriadau am Absenoldeb

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr W Kendall, M Hughes a H Griffiths |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 11 Mehefin 2026 |

## Datganiadau o Fuddiannau

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Fe wnaeth y Cynghorydd I Spiller ddatgan buddiant rhagfarnus yn eitem 9 ar yr Agenda. Arferodd ei hawl i siarad ar y cais hwn fel aelod o'r pwyllgor, ac wedyn gadawodd y cyfarfod tra roedd yr adroddiad yn cael ei drafod a phleidlais yn cael ei chynnal.<br><br>Fe wnaeth y Cynghorydd J Pratt ddatgan buddiant personol yn eitem 8 ar yr Agenda fel aelod o Gyngor Tref Porthcawl nad ydynt yn cymryd rhan o gwbl mewn materion cynllunio. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 11 Mehefin 2026 |

## Ymweliadau Safle

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | <u>PENDERFYNWYD</u> Cytuno ar Ddydd Mercher, 22/07/2026, ar gyfer ymweliadau safle arfaethedig yn codi yn ystod y cyfarfod neu a ganfyddid gan y Cadeirydd cyn cyfarfod nesaf y Pwyllgor. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 11 Mehefin 2026 |

## 247. Cymeradwyo Cofnodion

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | <u>PENDERFYNWYD:</u> Cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Rheoli Datblygu dyddiedig |

| | |
|---|---|
| | 8/05/2026 fel cofnod gwir a chywir. = |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 11 Mehefin 2026. |

## 248. Siaradwyr Cyhoeddus

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Roedd y gwahoddedigion canlynol wedi cofrestru i siarad am geisiadau cynllunio yn y cyfarfod heddiw:-<br><br>P/25/20/FUL – y Cynghorydd S Aspey, C Jones, P Foster a S Courtney<br><br>P/25/731/FUL – y Cynghorydd I Spiller, y Cynghorydd DA Unwin a J Wilks<br><br>P/26/219/NMA – y Cynghorydd T Thomas a D Barry |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 11 Mehefin 2026 |

## 249. Taflen Newidiadau

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Derbyniodd y Cadeirydd Daflen Newidiadau'r Pwyllgor Rheoli Datblygu fel eitem frys yn unol â Rhan 4 (paragraff 4) o Reolau Gweithdrefn y Cyngor, er mwyn caniatáu i'r Pwyllgor ystyried addasiadau angenrheidiol i Adroddiad y Pwyllgor, er mwyn ystyried sylwadau hwyr a diwygiadau yr oedd angen eu cynnwys. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 11 Mehefin 2026 |

## 250. Canllawiau'r Pwyllgor Rheoli Datblygu

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | PENDERFYNWYD: Nodi Adroddiad Canllawiau'r Pwyllgor Rheoli Datblygu. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 11 Mehefin 2026 |

| | |
|---|---|
| | |

**251. P/25/20/FUL - Hen Fwyty Fulgonis, 83 Stryd John, Porthcawl, CF36 3AY**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor Rheoli Datblygu o blaid gwrthod y cais uchod ac, yn unol â'r Cod Ymarfer Cynllunio a fabwysiadwyd, y dylid gohirio'r cais tan gyfarfod nesaf y Pwyllgor Rheoli Datblygu, er mwyn i'r Aelodau lunio'r rhesymau dros wrthodiad o'r fath, yn cael eu crynhoi fel effaith yr adeilad ar ymddangosiad y stryd ac ardal gadwraeth Porthcawl oherwydd ei uchder, ei raddfa, ei fàs a'i ddyluniad, a rhy ychydig o ddarpariaeth ar gyfer parcio ceir.<br><br>**Y Cynnig**<br><br>Dymchwel adeiladau hen fwyty Fulgoni ac ailddatblygu'r safle i ffurfio adeilad tirnod pum llawr yn cynnwys 43 o fflatiau fforddiadwy, gofod masnachol/cymunedol a mynediad wedi'i addasu ynghyd â gwaith cysylltiedig, gan gynnwys is-orsaf. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 11 Mehefin 2026 |

**252. P/25/731/FUL - Tir i'r de o'r A48, Craig Y Parcau, Pen-y-bont ar Ogwr**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | PENDERFYNWYD : (1) O ystyried y cais uchod ac yn hollol amodol ar i'r Ymgeisydd ymrwymo i Gytundeb Adran 106 i wneud y canlynol:<br><br>i) Darparu o leiaf 20% o gyfanswm nifer yr unedau preswyl (sy'n cyfateb i 24 uned Tai Fforddiadwy sy'n cynnwys 12 fflat cymdeithasol gydag 1 ystafell wely ar rent, 2 fflat canolradd 1 ystafell wely, 5 tŷ canolradd 2 ystafell wely, 4 tŷ canolradd 3 ystafell wely ac 1 tŷ canolradd 4 ystafell wely), er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â Pholisi COM3 ac i sicrhau bod y 24 uned fforddiadwy yn cael eu hadeiladu i Safonau Gofynion Ansawdd Datblygu Cymru; |

| | |
|---|---|
| | ii) Darparu cyfraniad ariannol o £921,140 (cysylltiedig â'r mynegai) i ddarparu ar gyfer y nifer tebygol o blant a gynhyrchir gan y datblygiad arfaethedig;<br><br>iii) Darparu cyfraniad ariannol o £203,721.12 (cysylltiedig â'r mynegai) tuag at ddarparu Cyfleusterau Hamdden Awyr Agored i'w defnyddio tuag at uwchraddio/gwella a chynnal a chadw caeau chwarae oddi ar y safle a darpariaeth awyr agored arall yng nghyffiniau'r datblygiad;<br><br>iv) Darparu cyfraniad ariannol o £360 (cysylltiedig â'r mynegai) i ariannu archwiliad/ardystio'r cae chwarae ar y safle i sicrhau ei fod yn cael ei adeiladu i gydymffurfio â'r cynlluniau y cytunwyd arnynt cyn rhoi llythyr cadarnhau;<br><br>v) Darparu cyfraniad ariannol o £9,500 (cysylltiedig â'r mynegai) i ariannu gorchymyn rheoleiddio traffig i hwyluso a gweithredu cynllun i ostwng y terfyn cyflymder ar y rhan hon o'r A48 o 50mya i 40mya a gweithredu cynllun i osod croesfan i gerddwyr ar yr A48 ym mhen dwyreiniol ffrynt y safle;<br><br>vi) Darparu cyfraniad ariannol o £10,000 (cysylltiedig â'r mynegai) i dîm Hawliau Tramwy'r Cyngor i gynnal/gwneud gwelliannau i wyneb Llwybr Troed MER/11/1; a,<br><br>vii) Darparu swm cymudol diffiniedig a/neu ofyniad am daliadau gwasanaeth rhent tir sy'n gysylltiedig â'r mynegai i gynnwys rheolaeth ecolegol a chynnal a chadw'r glwydfan ystlumod bwrpasol, gwyliadwriaeth a wardeinio am byth (bydd angen cynllun rheoli wedi'i gostio); nodi tir perthnasol i fod yn ddarostyngedig i'r rhwymedigaeth gynllunio a'i reoli ar gyfer bioamrywiaeth, cyflawni rheolaeth a chynnal a chadw, mecanwaith ar gyfer adolygu'r cynllun rheoli a chynnal a chadw yn rheolaidd (argymhellir 5 mlynedd) a manylion unrhyw newidiadau arfaethedig i ddaliadaeth i'w gwneud er bodlonrwydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol mewn ymgynghoriad â Chyfoeth Naturiol Cymru.<br><br>(2) Bod Cyfarwyddwr Corfforaethol y Cymunedau yn cyhoeddi hysbysiad o benderfyniad i ROI caniatâd mewn perthynas â'r Cynnig datblygu hwn yn amodol ar ac unwaith y bydd yr Ymgeisydd wedi ymrwymo i'r Cytundeb Adran 106, yn amodol hefyd ar yr Amodau sydd wedi eu cynnwys yn ei |

| | |
|---|---|
| | hadroddiad.<br><br>**Y Cynnig**<br><br>Dymchwel adeiladau presennol a chyflawni datblygiad preswyl arfaethedig o hyd at 120 o unedau ynghyd â gwaith priffyrdd, draenio, mannau agored a gwaith seilwaith cysylltiedig arall. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 11 Mehefin 2026 |

**253. P/26/219/NMA – Tir i'r gogledd o'r M4 ac i'r gorllewin o Heol Y Cyw, Pen-y-bont ar Ogwr**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | PENDERFYNWYD CANIATÁU'R cais uchod ac ail-eirio Amod 1 o'r caniatâd cynllunio gwreiddiol (cyf: DNS/3279521) fel a ganlyn (gyda'r holl amodau eraill sydd ynghlwm wrth y caniatâd gwreiddiol yn aros yr un fath):<br><br>1. Rhaid i'r datblygiad y mae'r caniatâd hwn yn ymwneud ag ef ddechrau ddim hwyrach na diwedd deng mlynedd yn dechrau gyda dyddiad y caniatâd hwn.<br><br>Y Rheswm: er mwyn cydymffurfio ag Adran 91 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.<br>**Y Cynnig**<br><br>Diwygiad ansylweddol i Amod 1 o ganiatâd cynllunio cyf: DNS/3279521 i ymestyn amser dechrau'r datblygiad o 5 mlynedd o ddyddiad y caniatâd i 10 mlynedd. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 11 Mehefin 2026 |

**254. Apeliadau**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | (1) Nodi'r apeliadau a dderbyniwyd ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor fel y dangosir yn adroddiad |

| | |
|---|---|
| | Cyfarwyddwr Corfforaethol y Cymunedau.<br><br>(2) Bod yr Arolygydd a benodwyd gan Weinidogion Cymru i benderfynu ar yr apeliadau canlynol wedi cyfarwyddo eu CANIATÁU, yn amodol ar Amodau:<br><br>(a) Apêl Rhif 2051 – Testun yr Apêl - Cynnig ar gyfer Codi Poster Hysbysebu 'Billboard' Digidol D48 Annibynnol.<br>(b) Apêl Rhif 20237 – Testun yr Apêl - Cadw Ardal Lawnt a Ffensys Presennol, Darparu 2 Garafán Sipsiwn Breswyl Sefydlog a 2 Garafán Deithiol, 2 Ystafell Gyfleustodau/Dydd, Lle Parcio Ceir, Ffensys ar y terfyn, Gwelliannau Ecolegol sy'n cynnwys cael Gwared ar rai rhannau o Lawnt Galed i gael lleiniau Plannu, a Gosod Gwaith Trin Preifat: Rose Meadow Yard Croft Top Farm, Trelales<br><br>(3) Bod yr Arolygydd a benodwyd gan Weinidogion Cymru i benderfynu ar yr Apeliadau canlynol wedi cyfarwyddo eu GWRTHOD:-<br><br>(a) Apêl Rhif 2048 – Testun yr Apêl – Cadw tŷ haf yn yr ardd gefn<br>(b) Apêl Rhif 2059 – Testun yr Apêl - Cael Gwared ar Lawnt Bresennol a gosod dau le Parcio yn ei lle |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | |

255. **Enwebu a Phenodi i'r Is-bwyllgor Hawliau Tramwy**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Cyflwynodd y Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, Adnoddau Dynol ac Etholiadau adroddiad oedd yn argymell penodi aelodau i Is-bwyllgor Hawliau Tramwy'r Pwyllgor:-<br><br>PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor yn cytuno y dylid ffurfio'r Is-bwyllgor Hawliau Tramwy gyda'r aelodau canlynol:<br><br>Cadeirydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu<br>Is-gadeirydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu<br>Y Cynghorydd D Hughes<br>Y Cynghorydd J Pratt<br>Y Cynghorydd I Williams |

| | |
|---|---|
| | Y Cynghorydd R Collins |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 11 Mehefin 2026 |

**256. Panel Ymweliadau Safle y Pwyllgor Rheoli Datblygu**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Cyflwynodd y Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, Adnoddau Dynol ac Etholiadau adroddiad yn amlinellu'r broses ar gyfer ffurfio Panel Ymweliadau Safle'r Pwyllgor.<br><br>PENDERFYNWYD: Y dylai'r Panel Ymweliadau Safle gynnwys yr aelodau canlynol:<br><br>Cadeirydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu;<br>Is-gadeirydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu;<br>Y Cynghorydd J Llewelyn-Hopkins<br><br>Aelod wrth gefn – Y Cynghorydd D Hughes |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 11 Mehefin 2026 |

**257. Cofnod Hyfforddiant**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | PENDERFYNWYD: Nodi adroddiad Cyfarwyddwr Corfforaethol y Cymunedau oedd yn amlinellu'r Sesiynau Hyfforddi oedd i ddod ar gyfer aelodau. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 11 Mehefin 2026 |

**258. Eitemau Brys**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Nid oedd dim eitemau brys. |

| | |
|---|---|
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 11 Mehefin 2026 |

I wylio rhagor o'r drafodaeth a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch ar y ddolen hon.

Daeth y cyfarfod i ben am 13. 38